# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Yr achos busnes
3. Materion i'w hystyried
4. Gwybodaeth bellach

## Cyflwyniad

Mae **Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr (ESV)**, neu wirfoddoli corfforaethol fel y'i gelwir ef hefyd, yn rhoi'r cyfle i gyflogeion wirfoddoli yn ystod oriau gwaith a chymryd rhan mewn achosion sy'n bwysig iddyn nhw a'u mudiad.

Mae mudiadau, fel rhan o'u rhaglen cyfrifoldeb cymdeithasol, yn cydnabod eu heffaith ar gymunedau y maen nhw'n gweithredu o'u mewn a thrwy **ESV**, caiff cyflogeion eu galluogi i gefnogi mudiadau cymunedol ac elusennau gyda'u hamser a'u sgiliau



Llun: Grŵp o wirfoddolwyr

Yn eu tro, mae cyflogwyr yn cydnabod bod cefnogi eu staff eu hunain i gymryd rhan yn y gymuned hefyd yn dda i fusnes – mae'n creu sefyllfa lle mae pawb ar ei hennill.

Mae mathau di-ri o raglenni **gwirfoddoli â chymorth cyflogwyr (ESV)** i gynorthwyo cyflogeion i wirfoddoli, yn eu hamser eu hunain ac yn ystod amser gwaith.

## Dulliau gwahanol o wirfoddoli â chymorth cyflogwr

Bydd gwahanol gyflogwyr yn dewis gwahanol ddulliau (neu gyfuniad o ddulliau) i gynorthwyo'u staff i wirfoddoli, yn dibynnu ar ddiwylliant ac anghenion busnes eu mudiad. Caiff rhai dulliau eu disgrifio isod, ac mae pob un ohonyn nhw'n werthfawr.

### Defnyddio sgiliau proffesiynol

Gall cynnig eich sgiliau proffesiynol i fudiad trydydd sector fod yn fudd amhrisiadwy i'r mudiad hwnnw nad yw o bosibl â'r setiau penodol hynny o sgiliau. Gall gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn prosiectau datblygiadol gwerthfawr a'u hadnoddu.

Ar yr un pryd ag y mae'r mudiad yn rhoi profiad i'r gwirfoddolwr, sy'n gallu gwella'i sgiliau a'i ddealltwriaeth o'r trydydd sector neu grŵp diddordeb, mae'r prosiect yn cael unigolyn â sgiliau priodol i weithio ar brosiectau na fyddai fel arall yn gallu eu hadnoddu o bosibl. Gallai prosiectau posibl gynnwys astudiaethau dichonoldeb, ymgynghoriadau cymunedol, cynlluniau marchnata neu gynllunio digwyddiad.

### Digwyddiadau tîm untro

Caiff digwyddiadau gwirfoddoli tîm eu trefnu mewn partneriaeth â mudiad trydydd sector (neu ysgol neu ysbyty), er enghraifft, gweithgareddau paentio ac addurno, garddio neu weithgareddau cadwraeth ac amgylcheddol.

Mae gweithgareddau llai traddodiadol yn cynnwys adeiladu a phrofi llochesau brys i'w defnyddio mewn parthau trychineb, trefnu diwrnod 'cyflwyniad i'r gweithle' ar gyfer myfyrwyr â nam ar eu golwg, neu drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusen.

Mae'r mudiad 'croesawu' yn elwa ar weld prosiect yn cael ei wneud a'i gwblhau. Mae aelodau tîm a chyflogwyr yn elwa hefyd, ar adeiladu tîm, cael mewnolwg newydd a chael y boddhad o gyflawni rhywbeth newydd.

## Mentora

Mae llawer o gynlluniau mentora sefydledig yn gofyn am wirfoddolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau sy'n gweithio gyda throseddwyr, pobl ddi-waith/ economaidd anweithgar, pobl ifanc sy'n dechrau ym myd busnes ac mewn ysgolion. Mae mentora'n helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau hyfforddi a gwrando, yn ogystal â chyflwyno budd enfawr i'r 'rhai sy'n cael eu mentora'.

## Aelodaeth o fwrdd

Mae gwirfoddolwyr yn eistedd ar fyrddau ysgolion, prosiectau cynnwys y cyhoedd neu ar bwyllgor rheoli mudiad trydydd sector. Mae bod yn aelod o fwrdd yn cyflwyno cyfle i gymhwyso sgiliau a phrofiad i amgylchedd a chyd-destun newydd sbon. Gall bod yn ymddiriedolwr hefyd helpu i adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, ehangu profiadau a datblygu

# Yr achos busnes

Mae llawer o gyflogwyr wedi canfod bod cefnogi eu staff i wirfoddoli'n cyflwyno buddion i bawb:

## Buddion i'r gymuned

- Gall sgiliau ac adnoddau cyflogeion helpu i gefnogi prosiectau a mentrau
- Cynnydd yn y gronfa o wirfoddolwyr sydd ar gael
- Adeiladu cysylltiadau rhwng y cyflogwr a'r gymuned

## Buddion i'r cyflogai

- Defnyddio'i sgiliau cyfredol i gefnogi prosiect cymunedol
- Datblygu sgiliau newydd a chael profiadau gwahanol
- Cael cyfle i gyflawni amrywiaeth ehangach o dasgau na'r hyn sydd ganddyn nhw yn y gweithle
- Cwrdd â chydweithwyr/cysylltiadau newydd
- Dealltwriaeth well o sector perthnasol / sector cleient

## Buddion i'r cyflogwr

- Cydberthynas gwell â rhanddeiliaid, y gymuned leol a'r gymuned ehangach
- Cyflogeion uchel eu cymhelliant
- Cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad y tu hwnt i'r hyn a gynigir fel arfer
- Ffordd hwyl o ddatblygu staff a thimau
- Cysylltiadau cyhoeddus da, cynnal delwedd brand cadarnhaol

# Materion i'w hystyried

Mae angen i raglenni gwirfoddoli â chymorth cyflogwr fod yn addas ar gyfer anghenion a gofynion eich mudiad. Dyma rai materion allweddol i'w hystyried:

## Amser o'r gwaith â thâl

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig amser o'r gwaith i'w staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol. Ni fydd eraill yn gallu cynnig hyn. Waeth beth fydd y mudiad yn ei benderfynu, mae'n ddefnyddiol cael polisi ar waith er mwyn esbonio'r trefniadau'n eglur.

Er enghraifft, ydych chi'n:

- Cynnig 'x' o ddiwrnodau â thâl am absenoldeb arbennig y flwyddyn er mwyn caniatáu i staff wirfoddoli
- Gofyn i staff weithio amser cyfatebol i'w hamser gwirfoddoli e.e. un awr o'u hamser eu hunain yn gyfnewid am un awr o'r gwaith â thâl
- Annog staff i wirfoddoli, ond heb allu cynnig amser o'r gwaith â thâl, felly bydd angen i'r staff wirfoddoli gyda'r nos neu ar benwythnosau neu drefnu gwyliau blynyddol, neu ddefnyddio trefniadau amser hyblyg

## Yswiriant ac iechyd a diogelwch

Caiff gwirfoddolwyr a gynorthwyir gan gyflogwyr eu diogelu gan gyfraith gwaith wrth wirfoddoli ar brosiect â chymorth cyflogwr (gan gynnwys gwirfoddoli oddi ar y safle a thu allan i oriau gwaith). Mae gan gyflogwyr 'ddyletswydd gofal' i leihau'r tebygolrwydd y bydd cyflogeion yn cael eu niweidio o ganlyniad i'w gweithgareddau gwirfoddoli. Bydd angen i gyflogwyr sicrhau bod eu polisi yswiriant yn cynnwys cyflogeion sy'n gwirfoddoli y tu allan i'w gweithle arferol.

Bydd angen cynnal asesiad risg ar bob gweithgaredd gwirfoddoli. Os ydych chi'n gweithio gyda mudiad partneriaeth sy'n trefnu gweithgaredd ar gyfer eich staff, mae angen i chi wneud yn siŵr bod y mudiad yn cynnal yr asesiad risg trosoch. Yn dibynnu ar eich trefniadau yswiriant, mae'n bosibl y bydd angen i chi gynnal asesiad risg hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth am iechyd a diogelwch ac asesiadau risg, gweler y daflen wybodaeth:
**4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel**

Nododd y gwaith ymchwil Time Well Spent fod **Gwirfoddolwyr â chymorth cyflogwr** yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u profiad gwirfoddoli o'u cymharu â gwirfoddolwyr nad oedd yn cael cymorth cyflogwr.

Isod, nodir rhai o'r camau gweithredu y gall mudiadau eu hystyried i'w helpu i wella profiad ac ymgysylltiad eu cyflogeion:

- Gwneud **ESV** yn fwy hyblyg – galluogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan o bell neu wirfoddoli'n agosach at adref
- Ffitio'r gwirfoddoli o amgylch cwblhau blaenoriaethau gwaith – sy'n helpu i ysgafnhau baich y cyflogeion hynny sy'n gorfod cydbwyso'r galwadau ar eu hamser
- Gwneud y cyfleoedd yn 'fwy personol', gan annog cyflogeion i fod yn rhydd i ddewis achos neu waith gwirfoddol sydd o bwys iddyn nhw
- Cydnabod pwysigrwydd meithrin cydberthynas cynaliadwy a mwy hirdymor â mudiadau cymunedol – mae'r gwirfoddoli'n creu llwybr am ymgysylltu a chyfleoedd pellach a all fod yn fuddiol i'r holl randdeiliaid
- Cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd sy'n diwallu anghenion eich cyflogeion ac sydd o ddiddordeb iddyn nhw
- Ystyried beth yw'r ffordd orau o gysylltu â mudiadau llai o faint o fewn eich cymuned, nid dim ond yr elusennau cenedlaethol mwy o faint

WWW

**Dolen Allanol**

Dolen i arolwg Time Well Spent, arolwg cenedlaethol ar brofiad gwirfoddoli ledled y DU.

Arolwg Time Well Spent

## Gwybodaeth bellach

**Cysylltwch â'ch Canolfan Gwirfoddoli lleol i gael gwybod mwy am gyfleoedd gwirfoddoli unigol yn eich ardal.**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

---

**Caiff cyfleoedd gwirfoddoli unigol eu hysbysebu ar wefan Gwirfoddoli Cymru.**
**Gwirfoddoli Cymru**
https://volunteering-wales.net/

---

**Busnes yn y Gymuned Cymru**
**Busnes yn y Gymuned**
https://www.bitc.org.uk/business-in-the-community-cymru/

---

**Adroddiad Time Well Spent ar ESV**
**NCVO**
https://www.ncvo.org.uk/policy-and-research/volunteering-policy/research/time-well-spent

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.